

Fforwm Cymunedau Ffydd
Cofnodion Cyfarfod 16 Hydref 2017
Ystafell Ddigwyddiadau, Parc Cathays

Yn bresennol:

Prif Weinidog Cymru	Cadeirydd
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant	Dirprwy Gadeirydd
Philip Manghan	(Cynrychiolydd) Archesgob Caerdydd
Carol Wardman	(Cynrychiolydd) Archesgob Yr Eglwys yng Nghymru
Jim Stewart	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Nordzin Pamo	Cyngor Bwdaidd Cymru
Naran Patel	Cyngor Hindwiaid Cymru
Stanley Soffa	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Viv Bartlett	Cyngor Baha'i Cymru
Christine Abbas	Cyngor Baha'i Cymru

Ymddiheuriadau:

Aled Edwards	Eglwys Ynghyd yng Nghymru
Gethin Rhys	Eglwys Ynghyd yng Nghymru
Elfed Godding	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Lisa Gerson	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Ahmed Darwish	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Peter Richards	Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru
Surinder Channa	Cymdeithas Ddiwylliannol Sikhiaid Cymru
Saleem Kidwai	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Nirmala Pisavadia	Cyngor Hindwiaid Cymru

Cyflwyniadau:

Tom Davies	Cymdeithas y Plant, Cymru
Dr Sam Royston	Cymdeithas y Plant, Cymru

Ysgrifenyddiaeth:

Andrea Adams	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Emma Small	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant

Swyddogion:

Maureen Howell	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Sally Hunt	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Ruth Studley	Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf

Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Prif Weinidog Cymru bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir.

Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Roedd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghyd â diweddariadau wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu nodi.

Materion yn Codi

Nid oes unrhyw faterion yn codi

Eitem 1 ar yr Agenda – Tlodi Plant yng Nghymru – Maureen Howell

Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod mynd i'r afael â thlodi plant yn dal i fod yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae ein Strategaeth Genedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Medi, yn darparu fframwaith ar gyfer ein dull llywodraeth-gyfan o gynyddu ffyniant ac ymdrin ag achosion sylfaenol tlodi mewn ffordd fwy effeithiol, gydgyssylltiedig.

Nid dim ond cyfoeth materol yw ein nod o ran ffyniant i bawb. Mae a wnelo â sicrhau bod pob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da ac yn byw mewn cymunedau cadarn, diogel. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gynorthwyo teuluoedd i ffynnu a galluogi plant i gael y dechreuad gorau mewn bywyd.

Trosglwyddodd Prif Weinidog Cymru yr awenau i Maureen Howell i roi diweddariad.

Dywedodd Maureen fod lleihau tlodi plant yng Nghymru yn gysylltiedig ag adeiladu economi gref a gwella sgiliau oedolion. Er bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru'n uwch nag erioed, roedd 30% o blant yng Nghymru yn dal i fyw mewn tlodi yn 2015/16. Mae'r anweithgarwch economaidd yn uwch yng Nghymru o'i gymharu â'r DU. Roedd 60% o'r plant a oedd yn byw mewn tlodi mewn cartrefi gydag o leiaf un oedolyn yn gweithio yn 2015-2016.

Ein huchelgais oedd dileu tlodi plant yn 2020 – fodd bynnag, gwyddom fod tlodi plant yn rhwym o godi, yn rhannol o ganlyniad i ddiwygiadau treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym ym ymrwymedig i ddileu tlodi plant yn y tymor hwy.

Mae ein ffocws ar achosion craidd tlodi – y blynyddoedd cynnar a chyflogadwyedd. Trwy ein mentrau megis 'Esgyn' a 'Cymunedau dros Waith' byddwn yn cynorthwyo'r rhai hynny sydd bellaf o'r gweithle i adeiladu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Bydd rhaglenni megis 'Dechrau'n Deg', 'Teuluoedd yn Gyntaf' a'r ffocws a roddir ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cefnogi cydnerthedd teuluoedd ac yn adeiladu cymdeithas sy'n wybodus am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Byddwn yn cynorthwyo aelwydydd difreintiedig i gynyddu eu hincwm trwy fentrau megis ein cynnig gofal plant a fydd yn darparu deg awr ar hugain o ofal plant ac addysg gynnar am ddim i rieni sy'n gweithio.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ceir pryderon cynyddol am y twf yn niferoedd y plant â phroblemau iechyd meddwl, gyda chynnydd mewn hunan-niweidio, yn enwedig ymhlith merched.
- Nid oes argoel o unrhyw beth yn cymryd lle Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Nid cyfrifoldeb Llywodraeth yn unig yw magu plant, ond Cymunedau hefyd.

- Mae'r 'Swindon Youth Empower Project' yn enghraifft o arfer da o ran gweithio gyda phobl ifanc ddifreintiedig y gellid ei rhannu gyda swyddogion sy'n gweithio yn y Tîm Tlodi Plant.
- Gofynnodd aelodau a oedd y data ar gyfer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi ei ddadansoddi yn ôl grwpiau ethnig.

Camau Gweithredu i Swyddogion:

- Gweithredu ar yr Adroddiad Cynnydd statudol ar dlodi plant a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016
- Gweithredu ar adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Cadarnhau a yw'r data sydd ar gael ar gyfer y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi'i gyflwyno yn ôl grwpiau ethnig

Eitem 2 ar yr Agenda – Cyfarfod Ffydd a Chydlyniant Cymunedol Gweinyddiaeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig - Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddiweddariad o gyfarfod diwethaf y Weinyddiaeth Ddatganoledig ar gyfer Ffydd a Chydlyniant Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghaeredin ar 12 Hydref.

Roedd yr holl Weinidogion yn cytuno ei bod yn hanfodol clywed lleisiau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr wrth lunio polisiau fel y gall llunwyr polisiau ddeall "profiad byw" y cymunedau hyn. Gofynnodd y DU am gymorth gan yr Alban a Chymru o ran sut orau i ymgysylltu â chymunedau.

Yn yr Alban, mae'r elusen gofrestrdedig o'r enw 'Interfaith Scotland' (IFS) yn cael ei hariannu gan Lywodraeth yr Alban. Mae'r IFS yn hwyluso ymgysylltiad rhwng gwahanol gymunedau ffydd a chred ledled yr Alban. Mae cynrychiolwyr o'r prif gymunedau ffydd yn yr Alban yn eistedd ar Fwrdd IFS.

Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Fforwm Ffydd yng Nghymru gyflwyno papur iddo yn y cyfarfod nesaf a fyddai'n cynnwys syniadau am gydlyniant cymunedol a sut y gallwn wneud pethau'n well. Dywedodd y byddai'n rhannu'r syniadau gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a'r Alban yn y cyfarfod Rhyng-Weinidogol nesaf (i'w gynnal yng Nghymru yn ystod Gwanwyn 2018).

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd cyfarfod ar wahân rhwng y gweinyddiaethau datganoledig i drafod materion sy'n effeithio ar Blant Ar Eu Pennau Eu Hunain sy'n Ceisio Lloches.

Cam Gweithredu: Aelodau'r Fforwm i lunio papur ar sut y gall Cymunedau Ffydd gyfrannu at Gydlyniant Cymunedol, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill 2018.

Eitem 3 ar yr Agenda - Adroddiad Cymdeithas y Plant yng Nghymru: Y Bwlch Gwybodaeth. Dr Sam Royston a Tom Davies, Cymdeithas y Plant yng Nghymru. Dywedodd Sam mai prwpas yr adroddiad oedd archwilio'r ymatebion diogelu yng Nghymru ar gyfer plant sy'n mynd ar goll neu sydd mewn perygl o fynd ar goll. Roedd yr adroddiad yn archwilio pum maes allweddol:

- 1) nifer y plant sydd wedi bod ar goll a'r nifer o weithiau y digwyddodd hynny iddynt.
- 2) yr ymateb cychwynnol gan asiantaethau allweddol pan hysbysir bod plentyn ar goll
- 3) darparu ôl-drafodaethau pan ddoir o hyd i blentyn neu pan fydd plentyn yn dychwelyd o fod ar goll
- 4) y wybodaeth a gasglwyd o gynnal ôl-drafodaethau a sut y caiff hon ei rhannu gydag asiantaethau sy'n bartneriaid.
- 5) arfer diogelu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd wedi eu lleoli'r tu allan i ardal eu hawdurdod lleol ac sy'n mynd ar goll

Eglurodd Tom fod yr adroddiad yn ganlyniad i wybodaeth o'r pedwar ar ddeg o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd i awdurdodau lleol a heddluoedd yng Nghymru. Roedd tri ar ddeg o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymateb i'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cynhaliodd Cymdeithas y Plant gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant, yr Eglwys yng Nghymru a chydag elusennau eraill sy'n rhoi cymorth i blant sydd wedi bod ar goll.

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag adroddiad arall gan Gymdeithas y Plant: 'Making Connections', a oedd yn archwilio arferion rhannu gwybodaeth yn Lloegr pan fo plant yn mynd ar goll, gan fod y fframwaith statudol sy'n cefnogi plant sy'n mynd ar goll yn wahanol rhwng y ddwy wlad.

Dyma rai o brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Yn ystod 2015/16, aeth bron i 4,500 o blant yng Nghymru ar goll o'u cartref neu o leoliad gofal. Dim ond unwaith yr aeth rhai o'r plant hyn ar goll, tra bo eraill wedi cael profiad o fynd ar goll sawl gwaith.
- Nid yw'r canllawiau cyfredol ar gyfer diogelu plant sydd ar goll yng Nghymru'n gwneud cyfweiliadau dychwelyd (neu ôl-drafodaeth fel y'u gelwir yn aml) yn ofyniad statudol. Canfu'r ymchwiler fod cyfran uchel o ôl-drafodaethau a gynhaliwyd yng Nghymru wedi'u cynnal o ganlyniad i benderfyniad fesul achos unigol (30%), sy'n golygu bod plant yr hysbysir eu bod ar goll yng Nghymru yn llai tebygol o gael cynnig ôl-drafodaeth nag yn Lloegr.
- Dim ond dau o'r awdurdodau lleol yng Nghymru a ymatebodd i'n ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ni oedd yn dweud eu bod yn gweithredu trefniadau rhannu data gyda'r heddlu trwy fodel amlasiantaethol, gyda deuddeg yn adrodd nad oes ganddynt gytundeb rhannu data o gwbl. Golyga hyn, pan fydd plant yn mynd ar goll, na fydd swyddogion yr heddlu yn aml yn ymwybodol o'r risgiau y maent yn eu hwynebu.
- Mae plant sy'n derbyn ofal sydd wedi eu lleoli y tu allan i'w hawdurdod lleol cartref yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant sydd o fewn eu hawdurdod lleol cartref. Nid oedd tri ar ddeg allan o bedwar ar ddeg o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth yn darparu unrhyw wybodaeth i'r heddlu lleol wedi iddynt dderbyn plentyn sy'n derbyn gofal i'w hardal. Roedd un awdurdod lleol yn dweud eu bod yn hysbysu'r heddlu os ydynt yn ymwybodol bod y plentyn yn risg uchel.

- Nid yw pedwar o'r tri ar ddeg o awdurdodau lleol yn hysbysu'r heddlu lleol wrth osod plentyn o fewn eu ffiniau ac mae pedwar arall yn gwneud hynny dim ond pan ystyrir bod y plant yn risg uchel.

Gofynnodd Sam a fyddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o Brotocol Cymru Gyfan - Plant sydd ar Goll, yn gwneud yr ôl-drafodaeth annibynnol yn ofyniad statudol ledled Cymru. Mae Cymdeithas y Plant yn amcangyfrif mai tua £1.1m fyddai cost flynyddol cyflwyno ôl-drafodaeth ar gyfer pob plentyn sy'n mynd ar goll, yn seiliedig ar gost ôl-drafodaeth o £95. Yn ogystal â hynny, dylai ôl-drafodaethau gael eu cynnal gan weithwyr gofal, ac nid gan swyddogion, gan y gallai hyn fod yn llai brawychus i'r plentyn. Mae Cymdeithas y Plant hefyd yn galw ar i Loegr gyflwyno ôl-drafodaethau statudol lle bo plant yn croesi o Loegr i Gymru. Cadarnhaodd Cymdeithas y Plant nad oedd digon o ddata cywir i ddangos nifer y cyfweiliadau ôl-drafodaeth sy'n cael eu cynnal yng Nghymru.

Dywedodd Prif Weinidog Cymru y dylem ailystyried y model (amlasiantaethol) – sicrhau bod hwnnw'n iawn yn y lle cyntaf. Bydd hynny'n fwy defnyddiol na gwneud trefniant statudol. Rhan o'r broblem yw bod gweithwyr cymdeithasol yn canolbwyntio ar gael y plentyn yn ôl gyda'i deulu. Efallai nad dyma'r penderfyniad cywir ar gyfer y plentyn os nad oes sefydlogrwydd o fewn yr uned deuluol. Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod angen data arnom i ddangos nifer yr ôl-drafodaethau a gynhaliwyd.

Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod diogelu plant sydd ar goll yn cynnwys nifer o wasanaethau, rhai wedi eu datganoli ac eraill nad ydynt wedi eu datganoli, a bod hwn yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn ei drin â'r difrifoldeb mwyaf posibl. Rydym yn gweithredu i fod yn fwy effeithiol yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r rhesymau pam fod plant yn mynd ar goll ac ymateb i achosion lle mae plant yn mynd ar goll. Rydym wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i oleuo ein dull gweithredu.

Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant. David Melding AC yw ei Gadeirydd. Mae'r Grŵp yn adolygu'r fersiwn gyfredol o Brotocol Cymru Gyfan - Plant sydd Ar Goll. Bydd y Protocol newydd ar gyfer Plant sydd Ar Goll yn darparu canllawiau ymarfer ar weithdrefnau mewn perthynas â'r holl blant sydd ar goll, gan gynnwys y rhai sydd ar goll o ofal preswyl. Bydd y Grŵp yn darparu ei dystiolaeth i Ysgrifennydd y Cabinet. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn i'r grŵp cynghori roi adborth i'r fforwm yn y cyfarfod nesaf.

Yn ystod y drafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dylai plant gael yr hawl i gyfweiliad ôl-drafodaeth os dymunant
- Dylai fod cymorth i ofalwyr maeth ddeall y problemau cymhleth sy'n gysylltiedig â maethu plant
- Ymddengys fod diffyg rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu ac awdurdodau lleol

Cam Gweithredu: Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am gael dychwelyd at yr eitem hon yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 4 ar yr Agenda - Pontio Cymunedau yn Gyntaf (PCG) - Ruth Studley

Esboniodd Ruth y bydd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cau erbyn mis Mawrth 2018. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet nifer o gamau lliniaru gan gynnwys Cronfa Etifeddiaeth gwerth £6m. Bydd hon yn cael ei defnyddio i gynnal yr agweddau mwyaf effeithiol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf ac i gefnogi gweithgarwch cymunedol cysylltiedig. Bydd cwmpas y Gronfa Etifeddiaeth yn cael ei bennu ar lefel leol gan Awdurdodau Lleol mewn cydweithrediad gyda'u cymunedau a'u partneriaid gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa agweddau llwyddiannus ddylai barhau.

Mae Llywodraeth Cymru bellach hanner ffordd drwy'r flwyddyn bontio. Rydym yn gweithio gyda phob Corff Cyflawni Arweiniol i gefnogi'r gwaith o gau Cymunedau yn Gyntaf a'r modd y maent yn bwriadu defnyddio eu cronfa etifeddiaeth yn 18-19.

Mae'r Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi cyflwyno eu cynlluniau pontio ar gyfer y flwyddyn ac mae swyddogion wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd gyda phob Corff Cyflawni Arweiniol, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd Rhwydwaith Cyrff Cyflawni Arweiniol Cymru Gyfan bob dau fis. Mae'r rhain wedi achub ar y cyfle i gael trafodaeth agored am y materion eang a phenodol ac i rannu arferion gorau yn seiliedig ar berthnasoedd gweithio effeithiol, da. Mae'r rhain hefyd wedi rhoi'r cyfle i ni ddeall yr heriau sy'n wynebu'r gwahanol Gyrrff Cyflawni Arweiniol yn lleol.

Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod llawer o Gyrrff Cyflawni Arweiniol yn defnyddio dull cyfannol. Lle y bo'n briodol, maent yn prif-frydio gwaith a arferai gael ei gyflawni dan faner Cymunedau yn Gyntaf ac mewn rhai achosion maent yn dod o hyd i ffynonellau cyllid eraill.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 16 oed, gyda miliynau o bunnoedd wedi mynd i'n cymunedau. Mae'r newid radical hwn i godi pobl allan o dlodi yn arwyddocaol yn ein rhaglen Ffyniant i Bawb. Rydym am adeiladu ar y nodwedd honno o ymddiriedaeth, gan ddefnyddio gwybodaeth leol. Bydd y newid hwn yn gwneud ein cymunedau yn fwy cydnerth ac yn gadarnach ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnwyd i'r swyddogion beth y maent wedi'i ddysgu, ac fe ddwedon nhw eu bod wedi dysgu am gryfder cymunedau i ddarparu'n lleol pan alluogir hwy i wneud hynny.
- Ni ddylid colli arbenigedd o fewn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf - bydd hyn yn cael ei godi trwy'r ymarferion Gwersi a Ddysgir a gynhelir eleni.

Eitem 5 ar yr Agenda - Wythnos Ryng-ffydd - Emma Small

Gofynnodd Emma i'r Fforwm rannu eu cynlluniau ar gyfer dathlu Wythnos Ryng-ffydd. Rhoddodd Emma wybod i'r Fforwm bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal seminar yn Llundain ar 23 Hydref i archwilio sut y caiff gwybodaeth am gymunedau ffydd Sikh eu cofnodi yng nghyfrifiad 2021.

Cam Gweithredu: Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu manylion i'r Fforwm am ddigwyddiadau rhyng-ffydd a fydd yn cael eu cynnal yn ystod Wythnos Ryng-ffydd (12-19 Tachwedd).

Eitem 6 ar yr Agenda - Unrhyw Fater Arall

- Diolchodd Naran Patel i'r Prif Weinidog am fod yn bresennol yn yr achlysur i ddadorchuddio cerflun Mahatma Gandhi ym Mae Caerdydd ar 2 Hydref. Cyflwynodd lyfr coffaol i'r Prif Weinidog.
- Rhoddodd Christine Abbas wybod i'r Fforwm y bydd dathliad dau ganmlwyddiant sylfaenydd ffydd Baha'I (Baha'u'llah) yn cael ei gynnal yn y Senedd ar 8 Tachwedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cyhoeddir dyddiad y cyfarfod nesaf yn fuan.